Peirianneg: swyddi, ymarfer a sgiliau 1 T176

Patrwm cyflwyno *O fis Chwefror i fis Medi*

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn tywys myfyrwyr drwy gamau cyntaf y gwaith o gynllunio eu datblygiad personol a phroffesiynol i gyflawni nodau gyrfa megis statws peirianneg proffesiynol. Fel rhan o'u datblygiad proffesiynol a'r broses o ddatblygu eu sgiliau allweddol bydd myfyrwyr yn mynychu ysgol breswyl gysylltiedig wythnos o hyd a gynhelir mewn prifysgol yn y DU. Yn yr ysgol breswyl byddant yn gweithio mewn timau bach, o dan arweiniad tiwtoriaid profiadol, gan wneud gwaith labordy a gwaith maes a datrys problemau.

Bydd ymarfer proffesiynol peirianwyr, gan gynnwys moeseg a diogelwch, yn cael ei archwilio gan ddefnyddio pwnc peirianneg.

Mae T176 yn fodiwl gorfodol ar Gam 1 o BEng (Anrh) a MEng.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â manyleb gyffredinol y person ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol mewn peirianneg neu bwnc sy'n gysylltiedig â pheirianneg
- brwdfrydedd dros addysgu peirianneg ar Lefel 1
- y gallu i gynghori ac arwain myfyrwyr ynglŷn â chaffael sgiliau allweddol
- y gallu i gynghori ac arwain myfyrwyr o ran llunio cynllun datblygiad personol a phroffesiynol
- parodrwydd i ddatblygu arbenigedd mewn astudiaeth achos peirianneg a chysylltu hyn â'r gallu i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol er mwyn hwyluso gwaith tîm
- parodrwydd a gallu i ymwneud â gweithgareddau cydamserol ac anghydamserol ar-lein gyda myfyrwyr.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad diweddar o weithio mewn amgylchedd peirianneg
- profiad o addysgu oedolion ym maes addysg bellach neu addysg uwch ac addysgu o bell
- aelodaeth o sefydliad peirianneg
- gwybodaeth am y gofynion mynediad ar gyfer sefydliadau proffesiynol
- brwdfrydedd dros ddatblygiad personol a phroffesiynol a gwybodaeth amdanynt.

Gwybodaeth ychwanegol

Addysgir y modiwl drwy gymysgedd o diwtorialau ar-lein, fforymau ac adnoddau cydamserol ac anghydamserol eraill.

Anogir tiwtoriaid i wneud cais i addysgu yn yr ysgolion preswyl wythnos o hyd sy'n gysylltiedig â T176 o dan gontract ar wahân.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	4.5